

HYWEL ab OWAIN GWYNEDD (bu farw 1170), milwr a bardd

Enw: Hywel ab Owain Gwynedd
Dyddiad marw: 1170
Rhiant: Pyfog
Rhiant: Owain ap Gruffydd ap Cynan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: milwr a bardd
Maes gweithgaredd: Milwrol; Barddoniaeth
Awdur: Arthur James Roderick

Mab gordderch [Owain](#) a Gwyddeles o'r enw Pyfog. Cymerodd Hywel ran amlwg yn y gwaith o reoli Ceredigion, a feddiannwyd gan d Gwynedd yn 1137. Rhoddodd ei dad dde Ceredigion yn ei ofal yn 1139. Yr oedd ymrafael byth a beunydd rhyngddo ef a'i ewythr [Cadwaladr](#) a feddiannai ogledd Ceredigion a Meirionnydd. Yn 1143 gyrrodd Hywel ei ewythr allan o Geredigion. Yn 1144 cymodwyd y ddau, ac adferwyd [Cadwaladr](#) i'w safle. Ofer oedd cais Hywel a'i hanner-brawd [Cynan](#) yn 1145 i gymryd castell Aberteifi, a arosasai yn nwylo'r Normaniaid. Yn 1146 ymunodd Hywel a [Chadell](#) o Ddeheubarth yn erbyn Normaniaid gorllewin Cymru; cymerasant gestyll Caerfyrddin, Llansteffan, a chastell Gwis (Wiston). Yn 1147 gyrrwyd [Cadwaladr](#) allan o Feirionnydd gan Hywel a [Chynan](#). Pan drosglwyddodd [Cadwaladr](#) ogledd Ceredigion i'w fab Cadfan, ymosododd Hywel ar y diriogaeth honno, gan ddal Cadfan (1150) a chymryd meddiant o'r castell newydd yn Llanrhystud. Yn y cyfamser, yr oedd tywysogion Deheubarth, [Cadell](#) a'i frodyr, gwir berchenogion Ceredigion, wedi goresgyn y rhan ddeheuol; erbyn 1153 yr oeddynt wedi ailfeddiannu gogledd Ceredigion yn ychwaneg, a daeth gyrfa Hywel yn y parthau hyn i ben. Yn 1157 yr oedd Hywel gyda'i dad yn ymgyrch Maesglas (Basingwerk) yn erbyn Harri II. Yn 1159 ymunodd â llu Normanaidd o Gaerfyrddin yn erbyn yr [Arglwydd Rhys](#), a oedd y pryd hwnnw'n gwrthryfela yn erbyn Harri II. Yn ôl pob golwg fe wnaeth hyn oherwydd i [Owain Gwynedd](#) ddymuno bod ar delerau da â'r Goron. O hynny ymlaen ychydig a wyddys am Hywel hyd ei farw mewn brwydr yn erbyn ei hanner-brodyr ger Pentraeth, Môn (1170), yn yr ymryson a ddilynodd farwolaeth [Owain Gwynedd](#). Claddwyd Hywel ym Mangor.

Y mae'n debyg mai fel bardd yr adwaenir ef orau. Rhagorai yn ei ddydd fel bardd telynegol. Yn wahanol i feirdd proffesedig y llys, ni chyfyngwyd ef i destunau arbennig; canodd am serch ac am brydferthwch naturiol Gwynedd, ei fro enedigol. Wyth o'i gerddi sydd ar gael; fe'u hargraffwyd yn *[The Myvyrian Archaeology of Wales](#)*^[r], i, 275-8

Awdur

Arthur James Roderick

Ffynonellau

- J. E. Lloyd, *[A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest](#)* (London 1911), Cyf. I
- J. E. Lloyd, *[A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest](#)* (London 1911), Cyf. II
- J. E. Lloyd, *[The Story of Ceredigion \(400-1277\)](#)* (1937), 56-9
- T. Parry, *[Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900](#)* (1944), 47-52
- [Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn](#)*, 1923, 49-50
- J. Williams (gol.), *[Annales Cambriae](#)* (1860)
- [Brut y Tywysogion](#)*

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Hywel ab Owain Gwynedd](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [47163753](#)

Wikidata: [Q2367819](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>^[r]

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

